# y dinesydd

Medi 1999 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 248



Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd *Llun: Robin Griffith*

Mawr fu'r llawenydd a'r dathlu ymysg aelodau Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd wrth iddynt gipio'r drydedd wobr yn y gystadleuaeth i gorau pensiynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni eleni, o dan arweiniad medrus Mrs Eilonwy Jones.

Y nod yn awr yw ychwanegu at rif yr aelodau erbyn mis Ionawr pan fyddant yn canu ymysg y corau fydd yn rhan o'r dathliadau i groesawu'r Flwyddyn 2000 yn Stadiwm y Mileniwm ar 2 Ionawr. Os oes gennych y llais a'r awydd i ymuno yn y cynnwrf a'r sbri, ffoniwch Gwenith Morgan ar 01222 693851. Cewch groeso cynnes.

Bydd yr Aelwyd a'r côr yn cwrdd nesaf ar 22 Medi yn Eglwys Minny Street am 2 o'r gloch. Ymrwymiad cyntaf y côr fydd cymryd rhan yng Nghyfarfod Diolchgarwch Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yng Nghapel Salem, Treganna, ar 14 Hydref.

Llongyfarchiadau i Gôr Caerdydd ar ennill y gystadleuaeth i gorau cymysg rhwng 41 a 60 o leisiau ym Mhrifwyl Môn.

## Cyn-fyfyrwyr Caerdydd yn Cipio'r Gadair a'r Goron

Yr oedd dau brifardd Eisteddfod Genedlaethol Môn eleni yn gyfoeswyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn yr 1980au.

Dyfarnwyd y Goron i **Ifor ap Glyn** am gyfres o gerddi'n ymwneud â'r boen a'r pleser o ddysgu Cymraeg. Mae llawer o'r cymeriadau sy'n ymddangos yn y cerddi wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Bu i Gaerdydd le amlwg yng ngherddi'r Goron y llynedd hefyd, oherwydd cerddi yn ymwneud â Chaerdydd oedd y dilyniant a enillodd y Goron i Emyr Lewis yr adeg honno. Graddiodd Ifor ap Glyn mewn Cymraeg a Hanes Cymru o Brifysgol Caerdydd a bellach mae'n gynhyrchydd teledu.

Graddio mewn Biocemeg o Brifysgol Caerdydd a wnaeth **Gwenallt Llwyd Ifan** a enillodd Gadair yr Eisteddfod am awdl yn sôn am berthynas mab a'i dad. Erbyn hyn y mae'n Bennaeth Bioleg yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Chwe blynedd yn unig sydd ers iddo ddechrau cynganeddu.

Enillwyd un arall o brif wobrau'r Eisteddfod, sef Tlws y Cerddor, gan **Ceiri Torjussen** o Riwbina, sy'n astudio ar hyn o bryd ar gyfer gradd uwch mewn cerddoriaeth yn Los Angeles. Enillodd Dlws Prif Gyfansoddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y llynedd am y trydydd tro mewn pedair blynedd.

## Drama Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i T. James Jones, Pontcanna, ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Môn yn y gystadleuaeth ar gyfer ysgrifennu drama hir. Bu un o raddedigion diweddar Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sef Dylan Wyn Williams, yn fuddugol am lunio drama fer ar gyfer y llwyfan, ac enillodd un o fyfyrwyr ymchwil yr Adran, Gwenan Roberts, y wobr gyntaf am drosi drama i'r Gymraeg. Mae Adran Gymraeg Caerdydd yn datblygu'n adran ddramatig iawn!

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys 'Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro' 1999**

# Y Dinesydd

**Medi 1999, Rhif 248.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Hydref at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 24 Medi:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 404906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................

.............................................. Cod Post: ...................

Rhif Ffôn: ..........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................


.............................................. Cod Post: ...................

Rhif Ffôn: ..........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 10** **Medi 1999**



**Ar Draws**

1. "Y tadau a fwytasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae ___" - Jeremeia (6)
8. Cafwyd hon mewn tanchwa erchyll (5)
9. Â gobennydd, bydd dawel yn y graig (7)
11. Ffwr gast a grea afradlonedd (8)
12. Gwneud cig o'r cŵn da! (5)
15. Atyniad yn Lloegr acw (4)
16. Gŵr yn dechrau dringo ysgol newydd (3)
17. Pwdin mewn cadair eisteddfod (4)
19. Torri pen y dail poethion â'r chwyth (5)
21. Symud Nant Dyfi i Dde Lloegr (8)
24. '___ mewn cwr o fynydd Newid aelwyd bob yn eilddydd' (7)
25. Troi allan pum cant anniwair (5)
26. Ychydig amser yn ôl gwelwyd coed mewn amgylchiadau ffals (6)

**I Lawr**

2. Troi yn ôl i ffeindio ffŵl (5)
3. Ai yma bu ffiaidd ŵr yn casglu dwst? (8)
4. Ci y Sais yn amgylchynu un segur (4)
5. Peri gweld mewn fflach o sicrwydd (5)
6. Cant a thrigain munud i gael Goliath (4)
7. Hanner pris a deuparth rhaff drwchus (4)
10. Diwrnod gorffwys yr arian! (4,1,4)
12. Brwydr William i warchod (4)
13. 'Gwnaeth Iesu berffaith lawn ___ ar Galfari' - JH (8)
14. Gwneud Elsi yn ddigalon (4)
18. All dydd fod yn annedd distryw? (5)
20. Yr Armada heb ddechrau mewn trafferthion ar y llwyfan (5)
21. Lle da i ddod o hyd i ddirnadaeth (4)
22. Am hynny mae'n afler llwgr ar yn ail (4)
23. Gorchwyl gast annifyr (4)

**Atebion Croesair 9 (Gorff./Awst)**

**Ar Draws:** 1. Dilyniant; 5. Gât; 7. Enwi; 8. Cantrefi; 10. Disberod; 11. Pair; 13. Dibaid; 16 Castell; 18. Glan; 19. Ar y dibyn; 22. Mwyalchen; 23. Lois; 24. Gau; 25. Menig Mair.

**I Lawr:** 1. Drewdod; 2. Lewis; 3. Allanol; 4. Titw; 5. Gwenallt; 6. Teigr; 9. Melin; 12. Sawdl; 14. Bradychu; 16. Llanastr; 17. Graean; 18. Gemog; 20. Broga; 21. Fflam.

Derbyniwyd un ymgais ar bymtheg, deuddeg ohonynt yn gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd E. Haydn Jones, 2 Heol Wen, Rhiwbina. Fe fydd ef yn derbyn tocyn llyfrau. Da oedd gweld nifer o enwau newydd ymhlith yr ymgeiswyr.

**Cystadleuaeth Medi 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF12 6DJ, erbyn 28 Medi.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 20 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson y Llywydd, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Medi**
Cymrodorion y Barri: Beti a Mary Jones, Clydach yn 'Dilyn Hanes Dr Sam Jones Bangor', yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.

**Gwener, 24 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: Sgwrs gan Mrs Mari Ellis, Aberystwyth, ar 'Y Golau Gwan: Llythyrau Tom Ellis A.S. at Annie Davies', yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.00 p.m.

**Sul, 26 Medi**
Oedfa Diolchgarwch yng Nghapel Pen-rhiw, Amgueddfa Werin Cymru, am 3.00 p.m. Pregethwr: Parch. Huw Ethall.

**Iau, 30 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan Dr Siân Rhiannon ar Arglwyddes Greenly (Llwydlas). Manylion pellach: Valmai Evans (314517).

**Iau, 30 Medi**
Tabernacl, Yr Ais: Cwrdd Diolchgarwch o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Denzil John.

**Sul, 3 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais: Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul am 10.30 a.m. a Chinio'r Cynhaeaf yn dilyn am 12.00.

**Sul, 3 Hydref**
Eglwys y Crwys: Oedfa Cwpan Rygbi'r Byd am 10.30 a.m.

**Llun, 4 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Sgwrs gan Wynne Lloyd ar 'Bryn Terfel ac Eraill', yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mercher, 6 Hydref**
Eglwys y Crwys: Sgwrs i Gylch y Chwiorydd a'r Froderfa gan Dr Hywel Griffiths am 2.15 p.m.

**Gwener, 8 Hydref**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson gyda Jac a Wil (sef Bill Davidson a Gwion Lewis), yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Sul, 10 Hydref**
Eglwys y Crwys: Cyngerdd gan Gôr Godre'r Garth am 3.00 p.m.

**Llun, 11 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Croesbwytho Sampleri' gan Mai Davies, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 12 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais: Cwis dan ofal Euros Rhys a Hywel Jones am 7.30 p.m.

**Iau, 14 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cyfarfod Diolchgarwch yn Salem, Treganna am 7.30 p.m.

**Gwener, 15 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Charlotte Guest a'r Mabinogion' gan yr Athro Sioned Davies, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Mawrth, 19 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais: 'Un o'r Teulu', sgwrs gan Beryl Hall, am 7.30 p.m.

**Mercher-Gwener, 20-22 Hydref**
Eglwys y Crwys: Noson o ddramâu ar y thema 'Rygbi'.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ.*

## Llongyfarchiadau

- i Catrin ac Emyr Daniel ar enedigaeth Beca Haf, chwaer i Mathew a Hannah;
- i Alan a Christine Jones, Bishop's Road, Yr Eglwys Newydd, ar ddathlu eu priodas arian yng Ngorffennaf;
- i Ceri Preece, partner yng nghwmni cyfreithwyr Hugh James Ford Simey, ar gael ei ailethol yn Llywydd Siambr Fasnach Caerdydd. Ef oedd y seithfed llywydd wedi'r canfed pan etholwyd ef gyntaf ym Mehefin 1998;
- i Rowland a Sue George, Rhiwbina ar enedigaeth merch fach, eu cyntafanedig, ganol Mehefin;
- i Rhian a Richard Carbis ar enedigaeth eu mab, Llion Marc;
- i Huw, mab hynaf Noel a Leisa Williams, Gwenfô ar ei ddyweddïad â Sara, unig ferch Tony a Sylvia Lockyer, Caerdydd;
- i Aled Williams, Y Mynydd Bychan ac Ysgol Gyfun Strade, Llanelli ar gael ei ethol yn gynghorydd Cyngor Tref Llanelli. Mae'n dda gweld pobl ifainc yn mynd i mewn i'r swyddi pwysig hyn;
- i Caryl Parry Jones ar gael ei hanrhydeddu'n Gymrawd er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru Bangor. Graddiodd yn y Gymraeg yn y coleg hwnnw;
- i Gareth Kiff, Glan-y-llyn, ar ei ddyweddïad â Veronica Jones, Buenos Aires a'r Gaiman, De America;
- i Graham a Bethan Middleton, Glan-y-llyn ar enedigaeth Ffion Sophie, wyres i Brian a Lis Wales, Rhiwbina.

## Ar y Bocs

Mae cwmni Al Fresco (Blwch Post 826, Caerdydd CF11 9WD; ffôn: 726726) yn chwilio am bobl â thalent arbennig - boed yn gantorion, dawnswyr, comedïwyr, consurwyr neu hyd yn oed chwaraewyr llif - sydd heb gael cyfle i ddangos eu dawn ar y teledu. Os ydych yn adnabod rhywun sydd â'r ddawn i ddiddanu, cysylltwch â nhw ar frys!


Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

**Tiwtor Iaith Rhan-amser**

Mae'r Adran yn chwilio am diwtor iaith rhan-amser i ddechrau cyn gynted â phosibl. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Athro Sioned Davies, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Ffôn: 01222-874843


## Perfformio'r Cyfansoddiadau

Yn dilyn taith hynod lwyddiannus y llynedd mae Cwmni Drama'r Gadwyn, Radyr, dan gyfarwyddyd Emyr Edwards, yn bwriadu trefnu taith gyffelyb eleni i gyflwyno detholiad o gynnyrch llenyddol Eisteddfod Genedlaethol Môn. Os yw eich cymdeithas neu eich clwb am ein gwasanaeth yn ddi-dâl (ond gyda chasgliad at elusen o'ch dewis) cysylltwch ag Emyr ar 339684.

## Dosbarthiadau Nos

Mae Canolfan Addysg Gydol Oes Prifysgol Caerdydd yn darparu rhychwant eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cymry Cymraeg a dysgwyr rhugl. Dros y gaeaf sydd o'n blaen, trefnir amrywiaeth o gyrsiau gloywi iaith a thrafod llenyddiaeth yn adeiladau'r Brifysgol yng nghanol Caerdydd. Bydd Cylch Darllen a Thrafod Llenyddiaeth yn cwrdd ar brynhawn Llun yn yr Eglwys Newydd a bydd nifer o Gymry Caerdydd yn dianc tua'r gogledd ar nos Lun i drafod cynnyrch yr Eisteddfod Genedlaethol yng nghwmni Dr Wyn James yn Ysgol Uwchradd Martin Sant, Caerffili. Bydd eraill yn nyddu'r cynganeddion ar nos Fawrth yng nghwmni Rhys Dafis yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Ar ben hynny, bydd cyrsiau yn y Barri a'r Bont-faen, Rhisga ac Ystrad. Ceir manylion llawn am y cyrsiau trwy gysylltu â Dr Gwenllian Awbery, 38 Park Place, Caerdydd CF10 3UB (Ffôn: 874831/2).


**Yn eisiau:** Person aeddfed i ofalu am fachgen 4 oed yn Llandaf ar ôl yr ysgol ac yn achlysurol adeg gwyliau. Ffôn: 01222 561151.

**Yn eisiau:** Gofalwraig ran-amser i fachgen 7 oed, cyn ac ar ôl yr ysgol, ym Mharc Fictoria. Rhaid cael car. Ffôn: 01222 561192

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## BETHEL, RHIWBINA

Llongyfarchiadau mawr i aelodau ifanc Bethel ar eu llwyddiant yn yr arholiad Lefel A. Bydd **Sara Roberts** yn mynd i Goleg St Hilda yn Rhydychen i astudio Ffrangeg ac Almaeneg ar ôl cael pedair 'A' yn yr arholiadau. Bydd **Trystan Francis** yn mynd i Aberystwyth i astudio Ffrangeg a Gwleidyddiaeth; **Rhodri Davies** yn aros yng Nghaerdydd i astudio Cemeg a Ffiseg a **Huw Elfyn** hefyd yn aros yng Nghaerdydd i wneud cwrs sylfaen mewn celf cyn mynd ymlaen i goleg arall y flwyddyn nesaf. Rydym yn dymuno'n dda hefyd i **Llŷr Dunsford** ar ei gwrs mewn Ffotograffiaeth yng Nghasnewydd.

Llongyfarchiadau hefyd i blant iau yr eglwys am gasglu cant a hanner o bunnau tuag at y Genhadaeth Dramor eleni.

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr ag Audrey ac Emrys Jones, Sili. Bu farw brawd Audrey yn y Bont-faen yn ddiweddar.

## TABERNACL, YR AIS

Mae tymor newydd yr Ysgol Sul wedi agor ac yn y Tabernacl bydd Helen Preece yn cymryd drosodd fel Arolygydd oddi wrth Bryn Evans ac Eluned Owen Rook. Yn ogystal â'r gwersi beiblaidd, cafwyd amrywiaeth o weithgareddau y llynedd gan gynnwys yn yr haf bicnic a thaith gerdded o gwmpas maes antur Garwnant ar y Bannau.

Agorir rhaglen blwyddyn newydd Cymdeithas y Tabernacl â Chwrdd Diolchgarwch ar nos Iau, 30 Medi, a chinio'r Cynhaeaf y Sul canlynol. Y swyddogion eleni fydd: Gwilym Morris (Cadeirydd), Delun Callow a Jean Evans (Ysgrifenyddion), a Viv Evans (Trysorydd).

Mae'r Dr Roy Kearsley yn ymuno â staff Coleg y Bedyddwyr (Richmond Road) ym mis Medi. Daw o Goleg Cristnogol Rhyngwladol yr Alban lle y bu'n ddarlithydd am rai blynyddoedd. Cafodd yrfa amrywiol hyd yma, gan gynnwys gweithio gyda'r ifainc a chyda'r eglwys yn Ghana.

## MINNY STREET

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â phriod a theulu y Parchg Wilfred Price (Cyncoed).

Cafwyd penwythnos bendithiol ddechrau Gorffennaf gyda chyfarfod Sefydlu'r Parchg Brifathro Eifion Powell ar nos Sadwrn, 3 Gorffennaf, o dan lywyddiaeth y Parchg Ieuan Davies. Pregethwyd gan y Parchg Athro Gareth Watts (Aberystwyth). Yna, ar y bore Sul, cafodd y plant gyfle i estyn eu croeso hwythau mewn gwasanaeth arbennig. Nos Sul arweiniwyd ni at Fwrdd y Cymun gan y Parchg Eifion Powell. Edrychwn ymlaen at gael cyd-weithio â'n Gweinidog newydd.

Daeth tymor yr Ysgol Sul i ben gyda seiclo a cherdded nawdd er budd Kosovo ynghyd â Chymanfa Fodern yn yr awyr agored (yn Ysgol Glantaf) b'nawn Sul, 18 Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn arbennig i **Gôr yr Aelwyd Hamdden**, dan arweiniad Mrs Eilonwy Jones, a gafodd 3ydd yn y gystadleuaeth i Gôr Pensiynwyr; **Meilyr Dafydd** ar ennill yr unawd i fechgyn 15-19, a **Huw Euron** ar ei lwyddiant ysgubol drwy gyrraedd y llwyfan dair gwaith yn yr unawdau dan 25 gan fynd ymlaen i ennill Gwobr Goffa Osborne Roberts, y Rhuban Glas i rai dan 25 oed.

## EBENESER

**Cyngerdd ail-agor Organ Ebeneser:** Wedi gwaith adnewyddu mawr ar organ yr eglwys, fe'i hagorwyd yn swyddogol mewn Cyngerdd Mawreddog ar 30 Mehefin. Fe ddaethpwyd â'r organ yn ei chrynswth o'r hen Ebeneser pan symudasom fel eglwys i'n hadeilad presennol ugain mlynedd yn ôl. Arweinydd y cyngerdd oedd Frank Lincoln a'r organydd oedd Huw Tregelles Williams, gyda Chôr Meibion Caldicot a Fflur Wyn yn canu. Gwnaed elw o £768 tuag at Gymdeithas y Deillion, ein helusen ddewisiedig eleni.

**Bedyddiadau:** Bu dau fedydd yn yr eglwys ym mis Gorffennaf. Ar 18 Gorffennaf bedyddiwyd Branwen Heledd, merch Alison ac Eilir Jones a chwaer fach i Esyllt. Yna, bedyddiwyd Rhys, mab Jennifer a Iolo Doull a brawd bychan Angharad ac Owain ar 25 Gorffennaf.

**Noson i Athrawon Ysgol Sul:** Yn Eglwys Ebeneser ar nos Iau, 7 Hydref am 7 o'r gloch, cynhelir cyfarfod agored dan nawdd Cyngor Ysgolion Sul Cymru i roi arweiniad i faes llafur yr Ysgol Sul ar gyfer 1999/2000. Croeso cynnes i bawb.

## Cydymdeimlwn

- â theuluoedd Elwina (Win) Williams, Heol Llanisien Fach; Pegi Davies, Pen-y-lan; Minnie Watkins; Malcolm Bennett, Rhiwbina; Rhodri Harries, Llandochau; a Rachel (Ray) Morgan, Plasturton, Pontcanna, a fu farw'n ddiweddar;
- â Derek Brown a'i deulu ar golli ei dad, Neville Brown, Caerfyrddin;
- â Hywel Rogers, Ullswater Avenue ar farw ei dad. Bu ei rieni, Graham a Mari Rogers yn athrawon Cymraeg diwyd a gweithgar yng Nghaerdydd yn y chwedegau, ac yn ffyddlon i gyfarfodydd y Tabernacl, cyn symud yn ôl i Gastell-nedd ac yna i Ynystawe;
- â Rhian Lloyd a'r teulu ar farw ei mam, Mrs Mair Eleanor Owen;
- ag Eirion Lewis a'i deulu ar farwolaeth ei frawd, David Lewis, Rhydaman;
- â Meilir Rowlands a'r teulu ar farwolaeth ei fam, Nina Rowlands, Rhydaman. Roedd hi'n ferch i'r telynor adnabyddus, Tom Bevan;
- â Ceri Morgan, Australia Road, Gabalfa, ar golli ei dad, H. Myrddin Morgan, San Clêr;
- ag Eiryl Walters, Rhiwbina a'r teulu ar farw annhymig ei mam yn Rhydaman ddechrau Gorffennaf;
- ag Emyr Kirkman, Aberystwyth a Chaerdydd ar farw ei fam yn frawychus o sydyn ddechrau Gorffennaf;
- â theulu'r diweddar Kevin Mullins, Rhiwbina, cyn-brifathro Ysgol Gyfun y Ddraenen-wen, Pontypridd. Roedd yn frodor o Goelbren, Cwmtawe;
- â theulu'r Parch. E. V. Wynne Jones. Bu farw ym mis Awst. Y Sul cyn ei farw pregethodd yn Nhabernacl, Yr Ais. Un o blant sir Fôn ydoedd ond daeth i Gwm Rhymni o Wrecsam yn 1946 ac aros yn yr ardal.

## Nid yw'r Felin...

Mae Siop y Felin, siop llyfrau Cymraeg yr Eglwys Newydd, wedi symud i 54-60 Heol Merthyr - bron cyferbyn â Swyddfa'r Post. Mae'r siop yn fwy, ond y croeso yr un mor gynnes! Rhif y ffôn yw 692999.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN


Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...

0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## RYGBI



### Cam yn Nes

Beth bynnag a ddywed Graham Henry, ac eraill, gan gynnwys hyd yn oed fy nheulu fy hun, camodd y genedl yn nes at Rownd Olaf Cwpan y Byd wrth guro Ffrainc yn heulwen y Maes Mawr newydd.

Roedd hanner cyntaf yr ornest yn hollol ddi-fflach ond ar ei ddiwedd, 12-6 oedd i Gymru gyda Neil Jenkins yn ei nawfed ornest a thrigain dros ei wlad yn cicio'r pedair gôl gosb. Ei gyfanswm bellach yw 838, ac mae record Michael Lynagh, cyn-faswr Awstralia, o 911 pwyntiau yn y golwg. Fe wyddwn i sicrwydd y trosai'r cais gwych hwnnw gan Dafydd James yn erbyn Ffrainc o'r ystlys chwith. Mae'n giciwr gosod rhyfeddol ond ni all gicio'n dactegol, gwaetha'r modd - yr oedd dwy gic yn yr ornest ddiwethaf hon yn wael iawn - ond gwellhaodd ei gicio at yr ystlys yn fawr iawn yn ystod y tymor.

Boddhaol oedd y fuddugoliaeth dros y Ffrancod, er bod naw gôl gosb yn y cyfanswm o 34 ac un cais yn unig, a bu raid aros tan ddau funud wedi hanner awr wedi pedwar i weld hwnnw. Ond am gais! Troseddodd blaenwr Ffrainc mewn lein trwy rwystro Chris Wyatt rhag neidio ond cafodd Colin Lloyd Charvis afael yn y bêl a'i phasio i Howley, i Jenkins, i Howley yr eilwaith, pas hir y tu ôl i'r ddau ganolwr i Gareth Thomas i Howarth, ac yna â phum metr ar hugain ar ôl, i Dafydd James ac aeth yr asgellwr y tu allan i'w wrthwynebydd a chroesi'r llinell gais yn y gornel. Yr oedd yn rhaid imi ddisgrifio'r fath gais yn fanwl, cais a brofodd nad myth oedd hi mai rhedwyr fuom yn y bôn erioed. Y trueni yw na fyddwn yn rhedeg a phasio'n amlach; y rheswm, meddan nhw, am hynny yw bod yr amddiffyn mor nerthol yn y gêm heddiw ond mi gredaf fi mai diffyg hyder sy'n gyfrifol, ac fe ddaw rhagor o geisiadau megis hwnnw gyda bod yr hyder yn dychwelyd.

Cyn ei gadael hi, hoffwn sôn am y diffyg gweledigaeth a'r ofn mentro ymhlith ein chwaraewyr bellach. Yn yr ornest honno ddiwedd Awst yr oedd olwr wedi cicio'r bêl o'i 22 dros yr ystlys tua hanner ffordd - er mwyn symud y perygl i'r llinell gais Ffrengig. Shane Howarth oedd nesaf at y bêl pan gyrhaeddodd yr ystlys gyda Scott Quinnell yn agos ato, ond nid oedd yr un Ffrancwr y tu allan i'w 22 - cyfle gwych am dafliad buan gan y cefnwr i Quinnell, pas yn ôl i Howarth a dechrau ymosodiad. Ond nid dyna a ddigwyddodd - cawsom lein arferol i Gymru ar yr hanner. Ond fe ddaw'n bendant wrth i'r hyder dyfu, ac yna y gwelwn rygbi yng ngwir draddodiad y genedl. Y tro nesaf, Cwpan y Byd a gaiff y sylw.

## IOGA

**Dosbarth Ioga/ymlacio trwy gyfrwng y Gymraeg:** Cynhelir y dosbarth cyntaf nos Lun, 27 Medi yn Ysgol Pen-cae, Llandaf am 7.30pm gyda'n tiwtor newydd, Siân Longstaff. Dewch i'n gweld ar 27 Medi i gael sgwrs a gwers a gobeithio penderfynu ymuno â ni. Gwisgwch ddillad cyfforddus a dewch â blanced neu sach gysgu gyda chi. Bydd 10 gwers yn costio £25. Cewch ragor o wybodaeth os ffoniwch Enyd (564794), Mary (564571) neu Mair (564574). Croeso cynnes i bawb!

## PÊL-DROED



Dyma sut yr oedd **Howard Spriggs** yn gweld pethau ym Mharc Ninian ar ôl i dîm y Brifddinas chwarae ei dair gornest gyntaf yn y Cynghrair:

Prin deufis ers diwedd y tymor diwethaf, fe wawriodd tymor newydd arnom. Ie, tymor newydd, gobeithion newydd a phum chwaraewr newydd yng ngharfan Caerdydd - Willie Bolland o Coventry, Matt Brazier o Fulham, Winston Faeber o'r Iseldiroedd, Russel Perret o Portsmouth ac un o Gynghrair Cenedlaethol Cymru, Jamie Hughes o Gei Connah. Mae dau ffefryn, a chwaraeodd ran amlwg yn nyrchafiad y clwb y tymor diwetha, wedi ymadael - Graham Mitchell i Halifax a John Williams i Gaerefrog - ac yn ôl Frank Burrows, rheolwr Caerdydd, fe fydd eraill yn ymadael ac eraill ar eu ffordd i Barc Ninian maes o law.

Os yw canlyniadau cynnar y tymor yn llinyn mesur fe ellir bod yn obeithiol. Mae'r chwarae yn gyffrous, y pasio yn llyfn a'r tîm yn creu cyfle ar ôl cyfle i sgorio - ac arweiniad Frank Burrows a Billy Ayre yn ysbrydoli pawb ar y maes ac oddi arno. Chwaraewyd tair gêm cynghrair eisoes - cyfartal 1-1 yn erbyn Millwall, buddugoliaeth gampus o 3-2 yn Rhydychen, a chyfartal 1-1 yn erbyn Wrecsam - a Chaerdydd yn creu digon o gyfleon i ennill y gêm yn drwyadl o flaen torf sylweddol o dros un fil ar ddeg. Maent hefyd drwodd i ail rownd Cwpan Worthington ar draul Queens Park Rangers. Os oes angen o gwbl, yna rhaid datblygu neu brynu sgoriwr naturiol - tybed a ddaw Jamie Hughes i'r adwy? Mae ei record sgorio yng Nghynghrair Cymru yn odidog ond mae'n gam aruthrol i'r Ail Adran.

Ar faes mwy eang, dechrau newydd i dîm Cenedlaethol Cymru - Bobby Gould wedi ymadael a Mark Hughes wedi ei benodi yn rheolwr dros dro am y ddwy gêm sy'n weddill yn rowndiau rhagbrofol Cwpan Cenhedloedd Ewrop. Does yr un amheuaeth o'i allu fel chwaraewr, na'i boblogrwydd ymhlith y chwaraewyr, ond rhaid cofio nad oes ganddo'r un profiad fel rheolwr clwb hyd yn oed - heb sôn am arwain Cymru. Beth bynnag am hynny, pob hwyl iddo ac i Gymru. Lle bu methiant, gobeithiwn am lwyddiant a llygedyn o obaith i'r dyfodol.

## Pêl-droed yr Urdd

### Twrnament Pen-tyrch

Yn ystod mis Mehefin, cymerodd rhai o dimau Clwb Pêl-droed yr Urdd ran mewn Twrnament Pêl-droed ym Mhentyrch. Cafwyd llwyddiant gyda thîm dan 8 oed yr Urdd yn fuddugol dros 15 o dimau gorau Caerdydd a'r tîm dan 7 oed yn ail yn eu categori nhw. Dyma lun o'r tîm buddugol dan 8 oed.



# Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

## Pabell y Dysgwyr (Medra), Eisteddfod 1999

Wel, mae'r haf wedi mynd mor gyflym, ac mae'n amser meddwl am flwyddyn academaidd newydd a chyrsiau Cymraeg. Os nad ydych chi wedi dod o hyd i gwrs eto, ffoniwch un o'r canolfannau yng Nghaerdydd i gael manylion. Mae rhywbeth i bawb yma yn y brifddinas!

Gobeithio i chi fwynhau'r haf a chymryd pob cyfle i ymarfer eich Cymraeg. Mae'n siŵr i rai ohonoch chi fynd i'r Eisteddfod. Roeddwn i yno trwy'r wythnos, a mwynheais yn fawr iawn er gwaetha'r tywydd. Dyw eisteddfodwyr selog ddim yn poeni am ddiferyn o law, beth bynnag, fel y cafodd ei brofi un bore. Roeddwn i'n stiwardio yn y theatr ac roedd sesiwn gan Ferched y Wawr. Daeth gwraig i roi "anerchiad". Wrth iddi ddod i'r llwyfan, dechreuodd y glaw. Ymhen deg munud aeth yn drymach a chlywyd ei sŵn ar do'r babell. Pum munud arall a daeth y taran, fel cerrig mawr yn rholian i lawr mynydd. Yna clywyd rhu injan lori yn cyrraedd a'r funud nesa daliodd pawb eu hanadl wrth i'r babell siglo'n frawychus a gwelwyd arwyddion bod rhywun yn dringo'r polyn y tu allan. Yna dechreuodd pibell sugno dŵr oddi ar y to. Trwy'r cyfan, chynhyrfodd y darlithydd ddim; heb aros unwaith, hwyliodd ymlaen fel petai dim byd wedi digwydd! Mae'n rhaid ei hedmygu ond, yn anffodus, dw i ddim yn meddwl rywsut bod ei chynulleidfa yn canolbwyntio!

Gyda llaw, efallai i chi sylwi bod yr enw "Medra" ar Babell y Dysgwyr eleni. Gelwir pobl Môn yn 'bobl y medra' achos, pan oedden nhw'n chwilio am waith yng Ngwynedd yn y chwareli, bob tro y byddai rhywun yn gofyn i unrhyw un ohonyn nhw a allen nhw wneud rhywbeth, yr ateb bob tro fyddai "Medra" (h.y. "Rwy'n gallu"). Penderfynodd trefnwyr yr Eisteddfod y byddai hynny'n enw gwych i Babell y Dysgwyr. Syniad da, ond byddai wedi bod yn neis petai rhywun wedi ei esbonio!

### CYRSIAU CYMRAEG YNG NGHAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| **Prifysgol Cymru, Caerdydd** - *pob lefel* | | |
| Ffoniwch | Helen Prosser | 01222 874710 |
| **Coleg Glan Hafren** - *pob lefel* | | |
| Ffoniwch | Andrew Currie | 01222 250439 |
| **Coleg y Barri** - *hyd at lefel TGAU (safon 4)* | | |
| Ffoniwch | Judy Williams | 01446 732519 |
| **Awdurdod Addysg Caerdydd** - *safon 1-3* | | |
| Ffoniwch | Siôn Lewis | 01222 872836 |
| | Mair Sims | 01222 872717 |
| **Awdurdod Addysg Bro Morgannwg** - *safon 1-3* | | |
| Ffoniwch | Christine Franks | 01222 513046 |
| | neu | 01446 733762 |
| **Cymdeithas Addysg y Gweithwyr** | | |
| Ffoniwch | Christine Franks | 01222 513046 |
| **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg** - *Wlpan a Chwrs Estyn* | | |
| Ffoniwch | Robat ap Tomos | 01222 486469 |

### Geirfa

Canolfan(nau) - Centre(s)
Eisteddfodwr - rhywun sy'n mynd i'r Eisteddfod

| | |
|---|---|
| selog - zealous | diferyn - drop/drip |
| anerchiad - address (speech) | llwyfan - stage |
| taran - thunder | rhu - roar |
| yn frawychus - terrifyingly | anadl - breath |
| hwylio - to sail | cynulleidfa - audience |

heb gynhyrfu dim - without turning a hair

| | |
|---|---|
| canolbwyntio - to concentrate | chwarel - quarry |

### Digwyddiadau CYD

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*)) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00
*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 01222 312293*

## Dysgwyr y Flwyddyn

Yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Môn, daeth Michael Bowdery ac Alun Perkins, y ddau o Gaerdydd, i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau iddyn nhw. Mae Alun yn dal i weithio yng Nghaerdydd ond mae Michael yn byw ym Mangor bellach.

## Canllawiau i Ddysgwyr

Llongyfarchiadau i Lynne Davies, ein colofnydd 'Ar y Cyd', ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Môn am lunio canllawiau i ddysgwyr ar sut i groesi'r bont ieithyddol.



*'Y Fam Ddelw' - hiwmor y saithdegau:* Eleri Bines, Iola Llwyd, Anthony Evans
*Llun: Robin Griffith*

## CWMNI THEATR Y CRWYS

I ddathlu Cwpan Rygbi'r Byd, mae'n fwriad gan Gwmni Theatr y Crwys gyflwyno tair drama fer, i gyd yn ymwneud â byd rygbi. Nid dramâu ar gyfer cefnogwyr rygbi yn unig mohonynt, ond tair comedi addas i'r holl deulu. Y tair yw *Cap Wil Tomos*, y gomedi fythol wyrdd gan Islwyn Williams; *Sgorio*, addasiad Myfanwy Jarman ac Alys Jones o *Bread of Heaven*; a *Gwellhad Buan* gan David Jones. Y dyddiadau yw nos Fercher hyd nos Wener, 20-22 Hydref am 7.30 o'r gloch. Enw'r noson yw 'Sgen ti Docyn?' felly gofalwch fod tocyn gennych chi, gan nad oes gynifer o seddi yn Theatr y Crwys ag sydd yn Stadiwm y Mileniwm!

Cafwyd tymor llwyddiannus iawn gan Gwmni Theatr y Crwys yn gynharach eleni, pan berfformiwyd tair drama un-act yn cyfleu hiwmor yr 1950au, yr 1970au a'r 1990au,



*'John Huws Drws Nesa' - hiwmor y pumdegau:*
Alys Jones, Gwyn Cadnant Griffith, Janet Parry Jones
*Llun Robin Griffith*

o dan y thema 'Amser a Ddengys'. Cynhyrchwyd y ddrama *John Huws Drws Nesa* o waith Cynan gan Gwyn Cadnant Griffith a'r actorion oedd Alys Jones, Gwyn Cadnant a Janet Parry Jones. Betsan Evans a gynhyrchodd y ddrama *Y Fam Ddelw*, addasiad Emyr Edwards o *Confusions* (Alan Ayckbourn). Yr actorion oedd Eleri Bines, Iola Llwyd ac Anthony Evans. Perfformiwyd y ddrama hon yng Ngŵyl Ddrama Pantyfedwen, gan gipio'r drydedd wobr allan o 13 cwmni. Yn y ddrama *Slipars a Llonydd* gan William Owen, cymerwyd rhan gan Gill Lewis, Bob Roberts, Non Davies, Chris Jones a Heledd Baskerville. Y cynhyrchydd oedd George Owen.



*'Slipars a Llonydd' - hiwmor y nawdegau:*
Gill Lewis, Bob Roberts, Non Davies, Chris Jones, Heledd Baskerville
Yn eistedd: Sara Lloyd (cyfarwyddwraig) a George Owen (cynhyrchydd).
*Llun: Robin Griffith*




# CAERDYDD

**Dinas y cyfryngau**
**Dinas y Cynulliad**
**Dinas y celfyddydau**
**Dinas chwaraeon**
**Dinas drama**
**Dinas dysg**

Ac ynghanol bwrlwm y brifddinas -
***Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd***

- *adran flaengar a chyfeillgar*
- *adran ryngwladol ei statws a'i chysylltiadau*
- *adran helaeth ei hadnoddau*
- *adran eang ei rhychwant o fodiwlau a chyrsiau*
- *adran ymchwil o'r radd flaenaf*
- *adran uchel ei chlod am ei gofal dros ei myfyrwyr*

***Pa le gwell i astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg!***

*Am ragor o fanylion am ein cyrsiau (rhan-amser a llawn-amser), cysylltwch ag:*

Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
Blwch SP 910, Caerdydd CF10 3XW

Ffôn: 01222-874843 Ffacs: 01222-874604
E-bost: Cymraeg@caerdydd.ac.uk
http://www.cf.ac.uk/uwcc/cymraeg/index.html

PRIFYSGOL CAERDYDD

## Diploma Newydd Sbon!

## Diploma Ôl-raddedig mewn Cyfieithu

Y mae galw mawr am sgiliau cyfieithu yn y Gymru sydd ohoni, a chyfieithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd yn mynd yn fwyfwy ymwybodol bod hyfforddiant o'r radd flaenaf yn angenrheidiol er mwyn sicrhau safon uchel a chyson.

Arwydd o'i hymrwymiad i'r bywyd cyhoeddus yng Nghymru yw'r ffaith y bydd Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd yn cynnig **Diploma Ôl-raddedig mewn Cyfieithu** o fis Medi 1999 ymlaen. Bydd modd dilyn y cwrs yn llawn-amser neu yn rhan-amser.

## Gradd Newydd Sbon!

## MA yn y Gymraeg

Mae galw cynyddol yn y Gymru gyfoes am gymwysterau uwchraddedig yn y Gymraeg. O fis Medi 1999, cynigir cwrs gradd newydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, sef **MA yn y Gymraeg**. Bydd modd dilyn y cwrs yn llawn-amser neu yn rhan-amser.

Bydd y cwrs yn cynnwys rhai modiwlau craidd blaengar ar sgiliau ymchwil ac ysgolheictod y Gymraeg ynghyd â dewis da o fodiwlau eraill sy'n adlewyrchu rhychwant eang diddordebau arbenigol staff yr Adran. Treulir rhan olaf y cwrs yn llunio traethawd sylweddol dan gyfarwyddyd aelod o'r staff.

**Yn ychwanegol, mae Adran y Gymraeg yn cynnig nifer o raddau uwch eraill, gan gynnwys:**

### MA mewn Astudiaethau Gwerin

Cwrs arloesol sy'n unigryw i Gaerdydd. Fe'i dysgir ar y cyd ag Amgueddfa Werin Cymru. Gellir dilyn y cwrs yn llawn-amser neu'n rhan-amser a thrwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Astudir amrywiol weddau ar ein diwylliant gwerin, gan gynnwys theori astudiaethau gwerin, llên gwerin, arferion gwerin, chwaraeon plant, ac iaith a hunaniaeth.

### Graddau MPhil a PhD

Gallwch ymgymryd ag ymchwil llawn-amser neu ran-amser sy'n arwain at raddau MPhil a PhD, gan ysgrifennu traethawd hir ar bwnc arbenigol o'ch dewis dan gyfarwyddyd aelod o staff yr Adran.

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

---

# Helpwch y Gymdeithas i dyfu!

Rhowch arian i Gymdeithas yr Iaith ac mae pethau rhyfedd yn tyfu - arwyddion ffyrdd, addysg Gymraeg, sianel deledu a deddf iaith....Gyda rhoddion unigol, gellir cyflawni gwyrthiau.

Rhowch yn hael heddiw - i dalu am fuddugoliaethau yfory.

Amgaëaf £_____ i "Cymdeithas yr Iaith".
Anfonwch fanylion ataf am sut i gyfrannu yn rheolaidd. ☐
Anfonwch fanylion ataf am aelodaeth. ☐
Enw_______________
Cyfeiriad_______________
_______________Côd Post_______________

Dychweler (gyda'r hysbyseb hon) i'r Trysorydd, Cymdeithas yr Iaith, Treforfa, Heol yr Orsaf, Llanrug, Gwynedd.

---

EISTEDDFOD GADEIRIOL
AMGUEDDFA WERIN CYMRU

## SAIN FFAGAN

**Dydd Sadwrn 20 Tachwedd 1999**

**TESTUNAU LLENYDDOL**
Beirniad: Islwyn Jones

1. Cerdd y Gadair: Cyfres o Benillion Telyn: 'Cymry Enwog yr Ugeinfed Ganrif'
   *Gwobr*: Cadair fechan o waith un o grefftwyr yr Amgueddfa Werin
2. Soned: Y Dr Gwynfor Evans
3. Cywydd neu Gerdd yn y mesur rhydd: Cais am Swydd yn Amgueddfa Werin Cymru
4. Englyn: Yr Athro Hywel Teifi Edwards (Llywydd yr Eisteddfod)
5. Deg Dihareb o waith y cystadleuydd
6. Pennill Beddargraff doniol: Agored
7. Limrig: Yn ystod y mileniwm nesa(f)
   Fe welwn y pethau rhyfedda(f) ...
8. Brawddeg neu Frawddegau a phob gair yn dechrau ag un neu ragor o'r llythrennau A C CH E G neu I
9. Brawddeg o'r llythrennau yn yr enw SAIN FFAGAN
10. Casgliad o Gerddi yn ymwneud ag unrhyw ardal neu ardaloedd yng Nghymru. (E.e., cerddi troeon trwstan, cerddi gofyn a diolch, digwyddiadau, dathliadau, cyfarchion priodasol a cherddi coffa. Pan fo hynny'n bosibl, dylid egluro cefndir y cerddi a nodi enw'r awdur.)
    *Gwobr*: £75.00 (rhoddedig gan Amgueddfa Werin Cymru, o Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds (1907-86), Brynhoffnant, Ceredigion).

Y Cyfansoddiadau i'w hanfon at yr Ysgrifennydd cyn **1 Tachwedd**:
Meinwen Ruddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Ffôn: 01222 573427 neu 573500

Mewn amlen o dan sêl dylid cynnwys: teitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn. Ar wyneb yr amlen, noder: teitl y gystadleuaeth a'r ffugenw.

---

sain

# GIG Y GANRIF

efo'r grwpiau Cymraeg gorau!



## Y GYFNEWIDFA LO,

Mount Stuart Square,
CAERDYDD
Medi 18, 1999 o 8.00 - 1.00

Beks yn cyflwyno:

## MEIC STEVENS A'R BAND ANWELEDIG, Y STRYMDINGARS GWACAMOLI

Ticedi - £6.50
ar 01222 230130 (cardiau Credyd)
neu 01222 330220